

## **Grŵp dysgu a datblygu Dementia – Cylch gorchwyl**

### **1. Pwrpas**

- 1.1 Pwrpas y Grŵp Dysgu a Datblygu Dementia yw sefydlu dull sy'n hwyluso'r gweithlu o ran dysgu a datblygu dementia ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Bydd yn gweithio'n unol ag egwyddorion y Fframwaith Gwaith Da. Mae'r rhaglen waith wedi'i chynnwys yng Nghynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018-2022 a *Gwaith da* – Fframwaith Dysgu a Datblygu Dementia i Gymru.
- 1.2 Canlyniad y gwaith yw gwell gofal i bobl sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd a'u gofalwyr.
- 1.3 Bydd y grŵp hwn yn weithredol ar gyfer cyfnod y Cynllun Gweithredu Dementia tan 2022.

### **2. Cylch Gorchwyl**

- 2.1 Cefnogi a datblygu gweithgaredd dysgu a datblygu rhanbarthol a chenedlaethol.
- 2.2 Cynnal trosolwg o weithgaredd dysgu a datblygu sy'n digwydd drwy Gymru 2018-2022, yn cynnwys unrhyw weithgaredd sy'n berthnasol i'n gwaith.
- 2.3 Cynghori ynghylch datblygu cynlluniau dysgu a datblygu cenedlaethol, bylchau a chynlluniau gwasanaeth.
- 2.4 Nodi a datblygu nifer o adnoddau ategol i ymgorffori'r fframwaith Gwaith Da mewn dysgu a datblygu dementia, yn cynnwys hybu a rhannu arfer da.
- 2.5 Cynnal cysylltiadau â gweithgorau cenedlaethol sy'n gysylltiedig â'r Grŵp ar Oruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia (DOIIG) ac unrhyw weithgorau eraill.
- 2.6 Sicrhau bod gwerthuso cydweithredol yn rhan annatod o'r cynllun a monitro effaith y cynllun gwaith ar bobl sy'n byw gyda dementia, gofalwyr a gweithluoedd ar lefel genedlaethol.
- 2.7 Cyfrannu tuag at y broses gyffredinol o werthuso Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Dementia.
- 2.8 Myfyrio ar a chydabod profiadau pobl â dementia a'u teuluoedd a'u gofalwyr a sicrhau bod hyn yn cael ei gynnwys mewn dulliau dysgu a datblygu.

### **3. Llywodraethu**

- 3.1 Bydd y grŵp yn adrodd i'r Grŵp ar Oruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia. Bydd eitem sefydlog ar y grŵp hwnnw er mwyn cael adborth.
- 3.2 Bydd y grŵp yn paratoi cynllun gwaith ac adroddiad blynyddol a rennir gyda'r Grŵp ar Oruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia.
- 3.3 Cofnodir yr holl gyfarfodydd â'r camau y cytunwyd arnynt. Bydd cofnodion ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.
- 3.4 Mae pob aelod yn cydsynio i rannu eu manylion cyswllt gydag aelodau'r grŵp a rhennir y manylion â chydweithwyr sydd â chysylltiad uniongyrchol a gweithgareddau addysg a chynllun gweithredu dementia.

### **4. Trefniadau cadeirio**

- 4.1 Bydd cyfrifoldebau cadeirio ar y cyd rhwng Gofal Cymdeithasol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

### **5. Aelodaeth**

- 5.1 Bydd aelodaeth y grŵp yn datblygu ac yn ymateb i'r cynllun gwaith a ddatblygir ar gyfer y grŵp. Bydd yn nodi aelodau sy'n gallu cyfrannu at ddysgu ac arfer da.
- 5.2 Mae'r aelodaeth bresennol yn cynnwys
  - Gofal Cymdeithasol Cymru
  - Iechyd Cyhoeddus Cymru
  - Llywodraeth Cymru
  - Y Gymdeithas Alzheimer
  - Addysg a Gwellu Iechyd Cymru
  - Therapïau
  - Arweinydd gweithlu rhanbarthol (awdurdod lleol)
  - Nyrs Ymgynghorol dementia
  - gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd
- 5.3 Bydd y grŵp yn cyflwyno dull i gynnwys pobl â dementia a'u teuluoedd a'u gofalwyr. Bydd cynrychiolydd ar y grŵp hwn unwaith y bydd hyn wedi'i sefydlu.

5.4 Ceisir cyngor arbenigol pellach, fel y nodir gan y grŵp.

## **6. Rôl aelodau**

6.1 Mae aelodau'r grŵp yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth a derbyn adborth gan eu rhwydweithiau a'u sefydliadau.

## **7. Cyfarfodydd**

7.1 Cynhelir cyfarfodydd bob chwarter, gyda gweithdai neu ddiwyddiadau ychwanegol y cytunir arnynt. Bydd gwybodaeth ychwanegol yn cael ei dosbarthu i'r grŵp drwy e-bost.

7.2 Bydd cyfleuster fideo-gynadledda a thelegynadledda ar gael ym mhob cyfarfod.

## **8) Gwerthoedd y grŵp a Datgan Buddiant**

8.1 Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru'n adlewyrchu gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus a'n gwerthoedd ein hunain o ran y ffordd yr ydym yn gweithio. Mae'n bwysig bod y grŵp prosiect yn ymddwyn yn unol â'r ymddygiad hwn – gallai peidio â gwneud hynny ddwyn anfri ar Gofal Cymdeithasol Cymru.

8.2 Mae cyfrifoldeb ar bob aelod o'r Grŵp Ymgynghorol i hysbysu'r Cadeirydd a/neu'r swyddog arweiniol os ydynt yn credu y gallai buddiannau personol, proffesiynol neu fasnachol penodol, yng ngolwg eraill, ddylanwadu ar gamau a gymerir yn rhinwedd eich swydd fel aelod o'r grŵp prosiect.

8.3 Mae cyfrifoldeb ar aelodau'r Grŵp Ymgynghorol i hysbysu'r Cadeirydd a/neu'r swyddog arweiniol os oes unrhyw fater a fyddai'n effeithio ar enw da'r grŵp, a, thrwy hynny, ar Gofal Cymdeithasol Cymru.

8.4 Os hysbysir y swyddog arweiniol am unrhyw gwynion a dderbyniwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru am unigolyn ar y grŵp, yna bydd y swyddog arweiniol yn hysbysu'r unigolyn ac yn gofyn iddo/iddi roi'r gorau i fod ar y grŵp tra ymchwilir i'r mater.